

Canolfan Merched y Wawr
Stryd yr Efail
Aberystwyth
SY23 1JH
☎: 01970-624501
✉: post@cymdeithas.cymru



27 Mai 2021

Annwyl Weinidog Gwladol dros Gyfryngau a Data, John Whittingdale AS,

Rydym ar ddeall fod Llywodraeth San Steffan yn y broses o benderfynu setliad ariannol S4C ar gyfer y cyfnod 2022-27. Ysgrifennaf atoch ar ran Cymdeithas yr Iaith er mwyn pwysu arnoch i gynyddu cyllideb S4C dros y pum mlynedd nesaf a'i adfer i'r lefelau a dderbyniodd yn 2009-10.

Toriadau anghymesur i S4C dros y degawd diwethaf

Ers 2010, mae cyllideb flynyddol S4C wedi ei chwtogi o 36% mewn termau real, ac mae gan y sianel 40% yn llai o staff. Nid oes modd dadlau nad yw S4C wedi cyfrannu'n fwy na'r un darlledwr cyhoeddus arall at arbedion y pwrs cyhoeddus.

Pryderon difrifol ynghylch dominyddiaeth gynyddol y BBC

At hynny, drwy'r toriadau anghymesur hyn, gwnaed niwed sylweddol i annibyniaeth S4C, gan ei bod bellach yn dibynnu'n llwyr ar y BBC i ddarledu ei chynnwys, ac mae bron i hanner ei staff bellach yn gweithio ym mhencadlys y BBC yng Nghaerdydd.

Yn hynny o beth, mae'r toriadau ynghyd â'r newid yn null ariannu S4C dros y degawd diwethaf wedi cryfhau dominyddiaeth gynyddol y BBC dros ddarledu yng Nghymru, ac wedi canoli rhagor o rym i ddwylo un darlledwr.

Gwyddom y byddwch yn cytuno gyda ni bod angen plwraliaeth yn y byd darlledu, ac yn y cyfryngau yn gyffredinol. Rydyn ni'n pryderu'n fawr felly bod gan y BBC ddylanwad cynyddol dros ddarledwr arall. Nid yw'n iach bod cynulleidfaoedd yng Nghymru mor ddibynnol ar y BBC, a bod ganddynt cyn lleied o lwyfannau annibynnol.

cymdeithas o bobol sy'n gweithredu'n ddi-drais
dros y gymraeg a chymunedau cymru
fel rhan o'r chwyltro rhwngwladol dros hawliau a rhyddid

Pryderwn y byddai symud i system lle mae S4C yn cael ei hariannu'n llwyr drwy ffi'r drwydded deledu yn cryfhau grym y BBC yng Nghymru fwy fyth.

Galwn arnoch chi felly i adfer cyllideb S4C i lefelau 2009-10 ac i gynyddu cyfraniad y llywodraeth iddi, fel bod modd i S4C adfer ei gallu i ddarlledu a gwneud penderfyniadau yn annibynnol ar y BBC.

Sefyllfa unigryw S4C

Ein dealltwriaeth yw bod y Trysorlys yn ceisio cadw pob setliad ariannol i 0%. Mae gennym lawer o bryderon ynglŷn â'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar yr unig sianel deledu Gymraeg, ac rydym o'r farn na ddylid trin S4C yn yr un modd â'r BBC o ran y modd y'u hariennir. Mae sefyllfa S4C yn wahanol iawn i sefyllfa'r BBC am sawl rheswm, ac felly credwn y dylai setliad ariannol S4C adlewyrchu hyn.

Yn gyntaf, yn wahanol i'r BBC, ni fydd S4C yn cael dim budd ariannol o'r cynnydd disgwylidig yn niferoedd y trwyddedau teledu yn y cyfnod 2022-2027. Byddai'r twf disgwylidig o 0.6% bob blwyddyn yn y cyfnod dan sylw yn cynhyrchu tua £18 miliwn o incwm ychwanegol i'r BBC. Byddai setliad ariannol teg yn sicrhau bod S4C yn cael cynnydd cyfatebol yn ei hincwm — sef cynnydd o tua £500,000 (0.6% o incwm presennol S4C, sef £83 miliwn).

Yn ail, mae S4C yn wahanol i'r BBC yn yr ystyr nad yw'n berchen ar unrhyw un o'r rhaglenni sy'n cael eu darlledu ar ei sianel. Golyga hyn nad yw S4C, yn wahanol i'r BBC, yn gallu cynhyrchu incwm ychwanegol drwy fanteisio ar werthiant pellach. Gan fod y BBC yn cynhyrchu llawer o raglenni'n fewnol ac felly'n gallu gwerthu eu rhaglenni, ceir yma ffynhonnell ychwanegol o incwm sy'n dod ag arian sylweddol i'r Gorfforaeth. Dylai setliad ariannol S4C unioni'r anfantais hon y mae'n ei hwynebu o'i gymharu â'r BBC.

Yn drydydd, mae gwahaniaeth ieithyddol amlwg yn bodoli rhwng y ddwy sianel, gydag S4C yn gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r BBC yn Saesneg. Ceir marchnadoedd parod i raglenni'r BBC ar draws byd, ond sianel deledu sy'n gwasanaethu iaith leiafrifol yw S4C. Hi yw'r unig sianel deledu Gymraeg yn y byd — mae gwerth y sianel felly'n llawer pwysicach na'r hyn y gall y farchnad ei wobrwyo. Chwaraea S4C rôl ieithyddol, ddiwylliannol ac addysgol hanfodol yng Nghymru, ac mae'r sianel hefyd yn gwbl allweddol o ran darparu newyddion Cymreig i bobl Cymru, arddangos straeon pobl gyffredin Cymru, a sgriwtineiddio ein gwleidyddion etholedig. Mae bodolaeth a llwyddiant parhaus y sianel felly'n hollbwysig nid yn unig i'r Gymraeg a diwylliant Cymru, ond hefyd i'n proses ddemocrataidd. Gan nad yw'r farchnad ynddo'i hun yn gallu cynnal cyfoeth diwylliannol S4C, mae angen cefnogaeth arian cyhoeddus ychwanegol arni.

Yn bedwerydd, yn wahanol i'r BBC, nid oes gan S4C sgôp i wneud arbedion pellach ar ben y rhai y mae'r sianel eisoes wedi'u gwneud. £5 biliwn yw trosiant y BBC, gyda dros 22,000 o staff yn gweithio i'r gorfforaeth, ac £83 miliwn yw trosiant S4C, gyda dim ond 110 o staff yn gweithio i'r sianel. Mae S4C eisoes wedi cydleoli'r gweithrediadau darlledu a dosbarthu gyda'r BBC, ac yn dilyn hyn nid oes modd gwneud arbedion pellach heb amharu'n ddifrifol ar gynnwys y sianel a'r rôl ddiwylliannol hanfodol y mae'n ei chwarae.

Yn olaf, dylid ystyried cyllideb S4C yn fuddsoddiad, gan fod gwaith ymchwil gan Ymchwil Arad yn dangos y cyfrannodd S4C £141.1 miliwn i economi Cymru yn 2019-2020 o ran effaith economaidd, gyda'r ffigwr hwn yn cynyddu i £197.4m wrth ystyried effaith economaidd y sianel ar draws y Deyrnas Gyfunol. Felly, hyd yn oed o bersbectif economaidd yn unig, mae S4C yn mwy na thalu'i ffordd.

Trosglwyddo grymoedd darlledu i Gymru

Mae'r sefyllfa bresennol, ble mae'n rhaid i S4C ymbil ar DCMS am setliad ariannol teg bob pum mlynedd, ac egluro a chyfiawnhau ei bodolaeth wrth Lywodraeth sydd ddim i'w gweld yn deall cyd-destun ieithyddol a diwylliannol Cymru, yn gwbl annheg.

Nodwn fod Pwyllgor Diwylliant Senedd Cymru [wedi galw'n ddiweddar ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ddatganoli S4C a materion darlledu i Gymru](#) (gellir darllen yr adroddiad yn Saesneg [yma](#)). Galwn arnoch i wrando ar safbwynt y pwyllgor trawsbleidiol hwnnw. Credwn y dylid trosglwyddo grymoedd darlledu i Gymru er mwyn sicrhau setliad ariannol hirdymor teg i'r unig sianel deledu Gymraeg sy'n bodoli yn y byd. Yn y byrdymor, galwn arnoch i wneud yr isafswm moel drwy sicrhau setliad ariannol teg i S4C ar gyfer 2022-2027.

Gobeithiwn y byddwch yn ystyried yr uchod ac edrychwn ymlaen at glywed yn ôl gennyh.

Yn gywir,

Mabli Siriol Jones

Cadeirydd

Cymdeithas yr Iaith

CC: Mark Drakeford AS, Prif Weinidog Cymru; Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg; Dawn Bowden AS, Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon; Oliver Dowden AS, Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon; Simon Hart AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru